## BULMER, JOHN (1784 - 1857), gweinidog Annibynnol



**Enw:** John Bulmer
**Dyddiad geni:** 1784
**Dyddiad marw:** 1857
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn sir Gaerefrog. Addysgwyd ef yn Rotherham o dan Dr. Edward Williams, a daeth, yn 1813, yn fugail t  cwrdd Albany (yr ' Albany Meeting'), Hwlffordd, Sir Benfro, lle yr arhosodd hyd 1840. Treuliodd weddill ei oes yn gweinidogaethu yn Rugeley, Bryste, Newbury, ac (ar ôl cyfnod) yn Langmore a Ruxton, gerllaw Ross-on-Wye. Bu farw 26 Tachwedd 1857.

Tra bu yn Hwlffordd cyhoeddodd Bulmer ddeg cyfrol yn cynnwys barddoniaeth, pregethau, a phethau crefyddol eraill. Yn eu mysg gellir nodi *The Vicar of Llandovery*, 1821, 1831, sef fersiwn Saesneg o waith Rees Prichard, *Memoirs of Howell Harris*, 1824, a *Memoirs of Benjamin Evans*, 1826, un o'i ragflaenwyr yn Albany.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 11

*Y Cymmrodor*, xiii, 40

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, i, 4, 116

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, i, 1, 9


### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733360

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu